



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Iau 26 Hydref 2017

Amser: 10:30y.b. tan 12:30y.h.

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell
SCC005

Yn bresennol:-

| | |
|-----------------|--|
| NH (Cadeirydd) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| DT | Ymgynghorydd Annibynnol |
| NC | Ymgynghorydd Annibynnol |
| PS | Ymgynghorydd Annibynnol |
| KR | Ymgynghorydd Annibynnol |
| DM | Ymgynghorydd Annibynnol |
| PR | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |
| PL | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |
| AL | Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP (gadawodd y cyfarfod am 11 o'r gloch) |
| MBr (cofnodion) | Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg |
| HDP | |
| MD | Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, SCHTh |
| AR | Prif Arolygydd Gweithrediadau Arbenigol Bro |
| GJ | Arolygydd – Partneriaethau – Ceredigion |
| JL | Adran Safonau Proffesiynol |

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

| | |
|----|---------------------------------|
| BS | Ymgynghorydd Annibynnol |
| JJ | Ymgynghorydd Annibynnol |
| RB | Ymgynghorydd Annibynnol |
| CB | Ymgynghorydd Annibynnol - SCHTh |

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol:-

| Rhif y cam gweithredu | Manylion y Cam Gweithredu | Perchennog | Statws ar 27 Hydref 2017 |
|-----------------------|---|------------|--|
| 1 | EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y dudalen troseddau casineb a bod manylion Swyddogion/ SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y dudalen we newydd. | EN | Parhaus – Mae'r wefan dal yn cael ei datblygu. |
| 2 | Sicrhau bod y Timau Plismona Bro yn rhoi rhif y gwasanaeth negeseuon testun difrys ar gyfer pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu sydd â nam ar eu lleferydd ar ddogfennau/taflenni sy'n cael eu hanfon allan at aelodau o'r cyhoedd. Adborth gan NM i'w fwydo i'r arolwg hygyrchedd. | EN | Parhaus – Bydd y defnydd o'r system negeseuon testun difrys yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad hygyrchedd. |
| 3 | EN ac AL i weithio gyda PS i sicrhau bod tudalen laith Arwyddion Prydain HDP yn cynnwys y wybodaeth berthnasol a'i bod hi'n cael ei hehangu lle bo angen. | EN | Parhaus – Mae'r wefan dal yn cael ei datblygu. |
| 4 | EN i ystyried y posibilrwydd o e-byst allan o'r swyddfa'n cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am argyfwng h.y. gwybodaeth 999. | EN/AL | Parhaus |
| 5 | EN i anfon dolen gyswilt ar gyfer fersiwn BETA o wefan newydd HDP ar gyfer sylwadau pan fydd hi'n barod. | EN | Parhaus – Nid yw'r fersiwn BETA yn barod i'w rannu eto. |
| 6 | Ymgynghori â'r grŵp ymgynghorol annibynnol fel rhan o'r adolygiad o deledu cylch cyfyng. | MD | Parhaus |
| 7 | Gwahodd EM i gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhoi diweddariad am y cynnydd a wneir mewn perthynas â gwefan HDP. | MBr | Parhaus – Gwahodd EM i'r cyfarfod nesaf yn 2018. |
| 8 | Y PGC i sicrhau bod prosesau mewn grym i sicrhau y bydd pawb yn ymwybodol y dylai pob taflen/poster ac ati fynd drwy'r Adran Gyfathrebu Gorfforaethol er mwyn sicrhau hunaniaeth gorfforaethol a bod y wybodaeth gywir yn mynd allan i'n | PGC | Cwblhawyd – Mae'r eitem hon yn rhan o'r safoni a chydlynu/strategaeth gyfathrebu wrth symud ymlaen. |

| | | | |
|--|------------|--|--|
| | cymunedau. | | |
|--|------------|--|--|

| | | | |
|----|--|-----|--|
| 9 | Bydd y PGC yn sicrhau bod taflenni'r Adran Safonau Proffesiynol yn cael eu hail-wneud yn unol ag adborth gan y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. | ACC | Cwblhawyd – Diweddarwyd y copi meistr â'r rhif ffôn symudol ar gyfer y gymuned fyddar |
| 10 | MD i roi adborth i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol o ran pa un ai a yw'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn gynrychiadol o'n cymunedau, ac os nad ydynt, pa gamau gweithredu fydd yn cael eu cyflwyno i amrywio'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. | MD | Cwblhawyd – Ceir manylion pellach yn y cofnodion. |
| 11 | PJ i ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol cyn cyhoeddi'r data o ddalfeydd ar gyfer sylwadau terfynol. | PJ | Cwblhawyd - Dosbarthwyd diweddariad yn y cyfarfod. |
| 12 | AL i gysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Thechnoleg i drafod materion cyrchu Varonis. | AL | Cwblhawyd – Esboniodd MBr Varonis a sut mae'n gweithio i'r grŵp. |

3. Gwarchodwyr Poeri a Chnoi (cyflau poeri)

Esboniodd y Prif Arolygydd Angela Reed (AR) beth yw cyflau poeri i'r grŵp a pham mae'r heddlu eisiau eu defnyddio.

Esboniodd AR ddiben y gwarchodwyr poeri a chnoi ac esboniodd eu bod nhw'n cael eu cyflwyno dros nifer o flynyddoedd i heddluoedd y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 25 heddlu'n defnyddio'r gwarchodwyr hyn ar gyfer cynorthwyo â diogelu swyddogion/gweithwyr gwasanaethau brys ac aelodau o'r cyhoedd rhag ymddygiad annerbyniol sy'n medru bod yn beryglus.

Dywedodd AR bod swyddogion yn rhoi eu hunain mewn perygl bob dydd, a byddai cyflwyno'r offer hwn yn cynnig yr offer diogelwch gorau ar gyfer ein staff. Mewn perthynas â heddluoedd Cymru, cadarnhawyd bod Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn defnyddio'r offer hwn ers nifer o flynyddoedd. Cyflwynodd Heddlu De Cymru'r offer ym mis Mai, ac mae Heddluoedd Gwent a Dyfed-Powys yn edrych ar gyflwyno'r offer.

Gwylodd y grŵp ddau glip fideo byr yn dangos cyflau poeri'n cael eu defnyddio. Hefyd, rhannwyd cwfl poeri ymysg y grŵp er mwyn iddynt weld sut beth ydoedd a'r defnydd maent wedi'u gwneud ohono. Cadarnhaodd AR y byddai hyfforddiant ar sut i ddefnyddio

cyflau poeri'n ffurfio rhan o hyfforddiant diogelwch blynyddol y swyddog. Bydd hyfforddiant yn cynnwys sut i wisgo'r cwfl poeri yn ogystal ag ystyriaethau amddiffyn allweddol a'r broses benderfynu. Dangosodd AR enghraifft o gardiau cyngor a fyddai'n cael eu rhannu fel rhan o'r hyfforddiant.

Cadarnhaodd AR y byddai defnydd o'r offer yn cael ei fonitro drwy systemau'r heddlu. Bydd yr offer ond yn cael ei ddefnyddio os oes rhywun wedi poeri neu ar fin poeri. Pan mae cwfl poeri'n cael ei ddefnyddio, ni fydd yr unigolyn yn cael ei adael ar ben ei hun ac ni fyddant yn cael eu defnyddio ar rywun sy'n dioddef o anawsterau anadlu, rhywun sy'n chwydu, neu rywun sy'n gwaedu'n ormodol o'r geg. Bydd bregusrwydd unigolyn yn cael ei ystyried bob tro. Cadarnhaodd AR y bydd y swyddog yn gweithredu ei gamera fideo a wisgir ar y corff cyn gynted â phosibl pan fydd cwfl poeri'n cael ei ddefnyddio ac y byddai'n esbonio i'r unigolyn pam mae'n defnyddio'r offer ac yn asesu'r sefyllfa'n barhaus. Rhaid bod swyddog yn medru cyfiawnhau ei benderfyniad mewn perthynas â'r cod moeseg a'r model ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Gofynnodd AR i'r grŵp am eu barn a chyngor ar sut y gallai'r heddlu gyflwyno'r offer hwn orau. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r defnydd o gyflau poeri ac o dan ba amgylchiadau y byddent yn cael eu defnyddio. Fel swyddog heddlu gweithredol, dywedodd GJ bod rhywun yn poeri arnoch yn waeth na chael eich pwno neu'ch cicio. Gofynnodd DT pa un ai a oedd cyflau poeri wedi'u defnyddio mewn perthynas ag Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Dywedodd AR nad oedd ganddi unrhyw enghreifftiau penodol i'w rhoi i'r grŵp. Esboniodd AR y byddai'r defnydd o gyflau poeri'n cael ei ystyried fesul achos ac y byddai bregusrwydd bob tro'n cael ei ystyried.

Mynegodd NC bryder mewn perthynas â chaniatâd a pha un ai a fyddai'r swyddog yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r cyflau poeri. Hefyd, holodd NC pa un ai a fyddai swyddog heddlu'n medru gwisgo gard pan mae ef/hi yw'r cyntaf i gyrraedd digwyddiad/sefyllfa. Er y gall fod amser gan swyddog yn y ddalfa i amddiffyn ei hun, wrth gyflawni dyletswyddau gweithredol, mae'n bosibl na fydd amser ganddo i wneud hynny.

Roedd PS yn teimlo bod cyflau poeri'n syniad da, ac yn cynnig amddiffyniad pwysig rhag heintiau. Fodd bynnag, roedd e'n teimlo ei bod hi'n bwysig dweud wrth yr unigolyn am beidio poeri neu fe fyddant yn rhoi'r cwfl arnynt. Roedd PS yn teimlo y dylid rhoi rhybudd cyn defnyddio'r cwfl poeri.

Cododd NC gwestiwn mewn perthynas â pha un ai a oedd crefydd yn cael ei ystyried o ran penderfynu pa un ai a i ddefnyddio cwfl poeri – gall rhai unigolion ddefnyddio eu crefydd fel rheswm i wrthod cwfl poeri. Cadarnhaodd AR y byddai ystyriaeth o grefydd yn cael ei drafod fel rhan o'r hyfforddiant, yn arbennig mewn perthynas â phenwisgoedd, sbectolau a gemwaith penodol.

Dywedodd DT ei bod hi'n bwysig fod cyfathrebu'n parhau. Dywedodd AR y byddai cwfl poeri'n lleihau achosion o boeri ar swyddogion, a fyddai'n lleihau nifer yr unigolion sy'n cael eu harestio am ymosod.

Cytunodd y grŵp y byddai'r defnydd o gyflau poeri'n dderbyniol pan mae unigolyn yn poeri ac yn amharod i wrando ar gais y swyddog i stopio.

4. Carnifal Aberaeron

Roedd **NH** eisiau codi mater mewn perthynas â fflôt diweddar yng Ngharnifal Aberaeron yr oedd yr heddlu eisoes yn ymwybodol ohono. Roedd rhywrai wedi ail-greu'r ffilm 'Cool Runnings' ar gyfer un o'r fflotiau. Mae'r ffilm yn dilyn hanes tîm bobsled o Jamaica. Roedd yr unigolion cysylltiedig wedi paentio eu hunain yn ddu ac wedi chwarae cerddoriaeth a oedd yn cael ei ystyried yn hiliol gan rai. Roedd rhai unigolion a oedd yn bresennol yn y digwyddiad wedi gwneud cwyn i'r heddlu am eu bod nhw'n teimlo sarhad. Mae grŵp lleol wedi'i ffurfio, a'i rôl yw edrych ar hiliaeth yng Ngheredigion a cheisio mynd i'r afael a'r mater drwy addysg, ac roedd llawer o ddiddordeb yn y digwyddiad ar gyfryngau cymdeithasol hefyd.

Mae Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru wedi gofyn i gadeirydd y GYA holi am adborth mewn perthynas â chynnydd yr ymchwiliad. Mewn perthynas â therminoleg yr heddlu, dywedodd NC y bu dadl o ran pa un ai a oedd hyn yn ddigwyddiad casineb neu'n drosedd casineb. Gall y gwahaniaeth fod yn anodd i'r cyhoedd ddeall.

Dywedodd GJ ei fod eisiau sicrhau bod yr ymchwiliad yn parhau, er nad oedd yn medru trafod manylion y digwyddiad, a bod y swyddog ymchwilio arweiniol yn ymgysylltu â'r unigolion cysylltiedig. Bydd pwyllgor fflotiau Aberaeron hefyd yn derbyn cyngor priodol mewn perthynas â digwyddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd NH pa un ai a oedd gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion rôl o ran ymdrin â'r digwyddiad. Cytunodd y grŵp y dylid gwahodd y Swyddog Cyswllt Ysgolion perthnasol i'r cyfarfod hwn er mwyn rhoi cyflwyniad ynghylch rôl Swyddog Cyswllt Ysgolion.

Awgrymodd PS y dylai'r cyngor roi taflen i bob pwyllgor carnifal wrth iddynt wneud cais i'r cyngor am ganiatâd i gynnal y carnifal.

Nododd NH fod taflen Plaid Genedlaethol Prydain wedi'i dosbarthu i dai ymhellach i'r digwyddiad.

Cam Gweithredu - GJ i anfon e-bost at yr uwch swyddog ymchwilio yn nigwyddiad Carnifal Aberaeron ar gyfer cysylltu â Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru.

Cam Gweithredu - NH i anfon copi o daflen Plaid Genedlaethol Prydain a ddsbarthwyd yn dilyn digwyddiad Carnifal Aberaeron at GJ.

Cam Gweithredu - MBr i wahodd y cydlynnydd Swyddogion Cyswllt Ysgolion i'r cyfarfod GYA nesaf i esbonio camau gweithredu yn dilyn y digwyddiad yng Ngharnifal Aberaeron.

5. Hiliaeth fodern a'i heffaith ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig

Hysbysodd NC y grŵp fod Archwiliad Anghyfartalwch Hil y Prif Weinidog, a gynhaliwyd ar draws y sector gwasanaethau cyhoeddus, wedi'i gwblhau. Mae'r archwiliad yn edrych ar sut y mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cael eu trin ar draws meysydd gwasanaethau

cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd, Addysg, Cyflogaeth a'r system cyfiawnder troseddol. Rhoddodd NC drosolwg o'r adroddiad hwn i'r grŵp.

O'r archwiliad hwn, mynegodd NC bryderon nad yw hiliaeth yn cael ei drin gan sefydliadau, ac o'r herwydd, nid yw'n ymddangos fel pe bai gwahaniaethu'n lleihau ac mae'n broblem barhaus.

Holodd NC pwy sydd â'r pŵer i leihau gwahaniaethu yn y gweithlu. Soniodd NC am ddiwyddiad diweddar yn y Drenewydd lle yr oedd grŵp o bobl ifainc wedi bod yn taflu cerrig at bobl o gymuned lleiafrifoedd ethnig ac yn galw enwau arnynt. Gwrthododd y dioddefwyr wneud cwyn i'r heddlu gan nad oeddent yn ymddiried ynddynt. Maen nhw ond wedi teimlo'n ddigon parod i ddod ymlaen gyda chymorth NC. Awgrymodd NC bod angen gwneud mwy i adeiladu ffydd o fewn y cymunedau.

Dyweddodd GJ y byddai'n cysylltu â'r Rhingyll Bro yn y Drenewydd er mwyn sicrhau ei fod yn cysylltu ag NC i drafod y materion penodol hyn ymhellach.

Cam Gweithredu - GJ i gysylltu â'r Rhingyll Plismona Bro yn y Drenewydd i drefnu ei fod yn cysylltu ag NC i drafod ei phryderon o gwmpas hyder cyhoeddus yn yr heddlu.

Holodd NC pa un ai a oedd TCC ar gael yn y Drenewydd. Cadarnhaodd MD bod y Drenewydd yn ffurfio rhan o'r prosiect TCC y mae'r Comisiynydd Heddlu'n symud yn ei flaen. Dywedodd MD mai'r gobaith yw y bydd TCC yn cael ei gyflwyno yn Sir Gaerfyrddin o fewn y 6 i 12 mis nesaf, ac yna gweddill yr ardal heddlu.

Awgrymodd NC fod angen modelau rôl o leiafrifoedd ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol. Cyfeiriodd at y diffyg barnwyr uchel lys, bargyfreithwyr, cyfreithwyr, a'r diffyg ffydd parhaus yn yr heddlu. Roedd NC yn disgwyl gwell ffydd yn yr heddlu yn y dyddiau modern hyn, sydd dal ddim yn bodoli.

Er bod rhai cynlluniau mewn grym yn genedlaethol ar gyfer denu pobl i yrfa yn y System Cyfiawnder Troseddol, roedd **NC** yn teimlo bod dal angen sicrhau cydraddoldeb yn y gweithle drwy bolisïau a gweithdrefnau. Roedd **NC** o'r farn bod y polisïau hyn weithiau'n medru dad-ddyneiddio unigolion - yn hytrach na chanolbwyntio ar amddiffyn y sefydliad. Awgrymodd **NC** bod gormod o rwystrau i bobl o leiafrifoedd ethnig ymuno â'r heddlu, a mynegodd ei phryder bod rhai heddluoedd yn talu pobl o leiafrifoedd ethnig i ymgymryd â'r Dystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona. Roedd NC yn teimlo bod profiad blaenorol â'r heddlu, er enghraifft, drwy'r broses stopio a chwilio, yn rhwystr ar gyfer ymuno.

Roedd NC yn teimlo bod yr Archwiliad Hil diweddar yn awgrymu bod Heddlu Dyfed-Powys yn targedu lleiafrifoedd sy'n cael eu stereoteipio a'u trin fel troseddwyr. Roedd NC o'r farn bod yr Archwiliad Hil wedi tynnu sylw at bethau nad oedd wedi'u symud ymlaen, felly mae angen i rywun mewn grym ailystyried y sefyllfa.

Ailadroddodd NC y gall effaith hiliaeth ar unigolion fod yn enfawr, gan achosi problemau iechyd meddwl, materion ariannol, pryderon cymdeithasol ac ati.

Holodd NC pa un ai a oes hawl gan swyddogion adrodd am swyddogion eraill os ydynt wedi gweld camwedd yn digwydd, ac os felly, pa un ai a ydynt yn cael cymorth. Mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys, dywedodd JL bod gweithdrefnau mewn grym ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon yn gyfrinachol. Disgwylir i bob swyddog ac aelod staff lynu wrth safonau ymddygiad penodol. Esboniwyd bod y Pwyllgor Cod Moeseg hefyd wedi'i sefydlu er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion.

Dywedodd JL bod yr Heddlu wedi penodi Swyddog Gweithredu Cadarnhaol ac mae llawer o weithredu cadarnhaol wedi digwydd o gwmpas recriwtio. Roedd gweithdai'n cael eu cynnal yn awr ledled yr ardal heddlu i roi gwybod i unigolion am rolau swyddog heddlu/SCCH a'u cynorthwyo i gwblhau ffurflenni cais. Cynhelir y gweithdai er mwyn annog unigolion o bob llinyn o'r gymuned i wneud cais am rolau o fewn yr heddlu.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas ystadegau stopio a chwilio sy'n deillio o'r Archwiliad Hil diweddar. Dywedodd KR ei bod hi wedi mynychu digwyddiad yn ddiweddar mewn perthynas â hiliaeth sefydliadol lle y rhannwyd gwybodaeth fod pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig deirgwaith fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio gan Heddlu Dyfed-Powys na phobl wynion, o'i gymharu â chwe gwaith ar draws Cymru a Lloegr. Dywedodd KR fod ystadegau Heddlu Dyfed-Powys yn well o lawer na'r ystadegau cenedlaethol. Roedd KR yn teimlo ei bod hi'n bwysig deall sut mae'n teimlo i fod yn un o'r unigolion hynny.

O ran recriwtio, roedd KR yn teimlo bod diffyg modelau rôl o fewn y gwasanaeth heddlu sy'n gwasanaethu'r gymuned yn rhwystro lleiafrifoedd ethnig rhag ymuno â'r heddlu.

Yn gysylltiedig â sylwadau NC, dywedodd PS fod y sefyllfa'r un fath o ran y gymuned fyddar. Esboniodd fod ofn o hyd o ran cysylltu â'r heddlu oherwydd mae ansicrwydd o ran pa un ai a fyddant yn helpu. Cyfathrebu yw'r prif rwystr. Teimlodd PS nad oedd swyddogion yn medru deall rhywun byddar yn iawn bob tro. Ystyriwyd bod cyfathrebu llwyddiannus yn hollbwysig os yw unigolion yn mynd i gysylltu â'r heddlu. Adroddodd PS hanes diweddar lle yr oedd fan heddlu wedi'i barcio er mwyn rhoi gwybodaeth am droseddau casineb ac ati. Dywedodd PS ei fod wedi ceisio cael sgwrs â'r swyddog, ond teimlodd nad oedd y swyddog eisiau parhau â'r sgwrs oherwydd nid oedd yn medru deall PS. Er bod y swyddog wedi rhoi taflenni i PS, ni wnaed llawer o ymdrech i sgwrsio â PS.

Cam Gweithredu – PS i roi lleoliad y fan heddlu ynghyd â'r dyddiad i MBr er mwyn rhoi adborth i swyddogion.

Dywedodd DT ei fod wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y broses stopio a chwilio ar gyfer swyddogion newydd. Synnodd fod pob un o'r 23 swyddog newydd yn wyn – nid oedd wedi sylweddoli bod cynrychiolaeth o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymysg y gweithlu mor isel. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd yr hyfforddiant yn agored iawn ac roedd y ffordd yr oedd yn cael ei gynnal a barn y swyddogion yn galonogol iawn. Roedd y grŵp yn hynod ysbrydoledig o ran y ffordd yr oeddent yn ymdrin â'u swydd newydd a heriau diwylliant. O ran hiliaeth, cafodd DT ei galonogi gan agwedd y grŵp.

Dywedodd KR fod problem arbennig o ran tangynrychioli cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ystod cyfnod recriwtio diwethaf Llywodraeth Cymru. Un peth a oedd yn cael ei ystyried oedd cynyddu cynrychiolaeth drwy'r llwybr prentisiaethau. O ganlyniad, mae ceisiadau ar gyfer llefydd wedi cynyddu'n sylweddol, ac awgrymodd

KR y gall fod rhywfaint o arfer da i'w rannu. Hefyd, awgrymodd KR y dylai recriwtio gysylltu â rhwydweithiau cymorth staff.

Cam Gweithredu - AL i gysylltu â KR er mwyn trafod gwaith recriwtio Llywodraeth Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

6. Mynediad at y system cwynion

Esboniodd JL rôl yr Adran Safonau Proffesiynol, sef ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd a materion camymddwyn o fewn yr heddlu. Roedd JL yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn ceisio barn ynghylch mynediad at y system gwynion gyfredol.

Dyweddodd JL wrth y grŵp fod Heddlu Dyfed-Powys wedi derbyn 7 cwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â gwahaniaethu – roedd hyn yn cyfrif am 1% o'r holl gwynion a dderbyniwyd gan yr heddlu. Mae hyn yn cymharu â 3% yn genedlaethol ar gyfer yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Nid oedd cwynion wedi'u derbyn mewn perthynas â Stopio a Chwilio. Cadarnhaodd JL y canlynol:

- Roedd 4% o'r holl achwynyddion dros y flwyddyn ddiwethaf wedi datgan eu hunain yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sy'n cymharu ag 11% yn genedlaethol;
- Roedd llai nag 1% o achwynyddion wedi nodi eu bod nhw'n drawsryweddol;
- Roedd 3% o achwynyddion wedi datgan anabledd corfforol neu feddyliol;
- Ni nododd unrhyw un o'r achwynyddion eu bod nhw'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

Esboniodd JL bod perygl nad oedd unigolion o gefndiroedd lleiafrifol yn dod ymlaen i wneud cwyn i'r heddlu er bod yr ystadegau'n creu darlun da. Cadarnhaodd bod cwynion yn cael eu hystyried yn rhywbeth cadarnhaol sy'n galluogi'r heddlu i nodi meysydd ar gyfer gwella.

Gofynnodd JL i'r grŵp am eu barn ynghylch hygyrchedd gwneud cwyn a'r broses sy'n gysylltiedig.

Dyweddodd NC fod gan yr hen system o wneud cwyn 3 lefel o ran sut i wneud cwyn, ac roedd hyn yn gweithio'n dda iawn yn ôl pob tebyg. Mae'r daflen gyfredol sy'n esbonio sut i wneud cwyn rhy gymhleth, ac nid yw'n caniatáu ar gyfer bwydo canmoliaeth yn ôl i'r heddlu. Yn ogystal, mynegodd NC bryderon fod cael manylion y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol yn ddryslyd. Awgrymwyd cael un pwynt cyswllt ac yna gellir cyfeirio'r gŵyn i'r lle cywir unwaith y bydd wedi'i derbyn.

Dyweddodd JL bod newidiadau'n dod i rym flwyddyn nesaf mewn perthynas â deddfwriaeth, a bydd gan bob heddlu un pwynt cyswllt a fyddai'n gwneud y broses yn symlach o lawer.

Cafwyd trafodaeth ynghylch profiadau pobl sydd eisoes wedi gwneud cwyn i'r heddlu. Mynegwyd pryder nad oedd rhai unigolion wedi gwneud cwyn oherwydd diffyg ffydd.

Dyweddodd MD y gall pobl ofyn i rywun arall wneud cwyn ar eu rhan os yw unigolyn yn teimlo na all wneud cwyn ei hun.

Awgrymodd KR fod angen i'r heddlu gymryd cam yn ôl a darganfod beth yw'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag dod ymlaen er mwyn canfod beth sy'n atal unigolion rhag gwneud cwyn. Efallai bod angen targedu grwpiau penodol, ac ni fydd taflen o reidrwydd yn addas i bawb. Roedd KR yn teimlo nad oes unrhyw beth ar wefan yr heddlu ar hyn o bryd a fyddai'n cefnogi unigolyn o ran gwneud cwyn. Awgrymodd KR y gallai'r heddlu anhysbysu profiadau unigolion sydd wedi mynd trwy'r system gwyno a'r canlyniadau. Gall hyn annog eraill i gael hyder a ffydd y bydd rhywbeth yn cael ei wneud.

Dyweddodd PS ei bod hi'n anodd i'r gymuned fyddar hefyd. Mae angen cynnwys manylion cyswllt ar gyfer pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ar daflenni. Roedd PS yn teimlo bod ofn cwyno ar y gymuned fyddar oherwydd maen nhw'n ofni na fydd yr heddlu'n eu deall. Cadarnhaodd JL bod y daflen gwyno wedi'i diwygio yn awr ac mae'r rhif ffôn symudol ar gyfer y gwasanaeth negeseuon testun brys bellach yn cael ei gynnwys.

Dyweddodd NH y dylai SCCH fod yn bobl porthdy i'r heddlu, fodd bynnag, oherwydd blaenoriaethau eraill, teimlwyd nad oeddent bob tro'n mynychu digwyddiadau cyhoeddus.

Awgrymodd DT fod angen sicrhau ymgysylltiad â chymunedau drwy SCCH. Pan mae pobl wedi cael profiad gwael o ddelio â chwyn, maen nhw'n sôn am y diffyg ffydd sy'n deillio o hyn wrth ffrindiau, a all, yn eu tro, osgoi cwyno oherwydd diffyg ffydd. Mae angen iddo fod yn haws i unigolion wneud cwyn i'r heddlu. Awgrymodd DT y dylai SCCH nodi unrhyw anfodlonrwydd drwy eu cysylltiad â chymunedau a bwydo hynny yn ôl i'r ASP.

Roedd NC yn teimlo y gallai'r heddlu gyfathrebu ag unigolion a'u deall pe bai wir eisiau. Mae angen i unigolion wrando, arsylwi a chymryd eu hamser.

Cam Gweithredu - JL i rannu drafft o'r daflen gwyno newydd i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod.

7. Diweddariad o gyfarfodydd eraill.

7(a) Symposiwm Ymchwil

Rhoddodd DT drosolwg o'r Symposiwm Ymchwil a gynhaliwyd drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Roedd y digwyddiad hwn yn tynnu sylw at ymchwil a gynhaliwyd gan y Swyddogion Heddlu eu hunain ac roedd unigolion wedi sôn am eu profiadau personol o ran iechyd meddwl. O ran hyfforddiant, mae DT yn gobeithio y gellir edrych ar y lefel hon o brofiad byw fel adnodd o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn hytrach nag edrych arno o safbwynt bregusrwydd.

7(b) Grŵp Strategol Iechyd Meddwl

Hysbysodd DT y grŵp ei fod yn mynychu'r cyfarfod hwn yn rheolaidd. Dywedodd DT bod rhai swyddogion wedi mynd i gynhadledd lle'r oedd Heddlu Swydd Hampshire wedi rhoi

enghraifft o'r defnydd cadarnhaol o brofiad byw i swyddogion er mwyn cynorthwyo pobl o fewn y gymuned. Mae'r unig broblem bosibl yn ymwneud â sut y gallai effeithio ar y swyddog. Gall defnyddio profiadau byw yn y ffordd hon gynorthwyo â magu hyder yn y cymunedau.

Mae'n edrych yn debyg y bydd y cynllun peilot Brysbennu Iechyd Meddwl yn cael ei estyn oherwydd newidiadau o fewn y Bwrdd Iechyd. Rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

7(c) Hyfforddiant Stopio a Chwilio

Mynychodd DT yr hyfforddiant Stopio a Chwilio. Roedd y digwyddiad hyfforddi hwn wedi'i redeg yn dda. Roedd grŵp mawr iawn yn bresennol yn yr hyfforddiant hwn, ac roedd pawb yn rhan o'r ddadl ar Stopio a Chwilio. Dywedodd DT ei fod yn fodlon iawn â chynnwys yr hyfforddiant a'r drafodaeth agored a gafodd y grŵp, gan gynnwys yr heriau y gall swyddogion wynebu.

Gofynnodd NC am i graffu ar stopio a chwilio, mewn perthynas â'r newidiadau o ran cyfrifoldeb, gael ei gynnwys ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu - MBr i osod craffu ar Stopio a Chwilio mewn perthynas â'r newidiadau o ran cyfrifoldeb, ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

7(ch) Cyfarfod Cod Moeseg

Mae MD wedi mynychu'r cyfarfod cod moeseg. Cyfarfod misol yw hwn ac mae'r grŵp yn edrych ar gyfeiriadau o ran penblethau moesegol y mae swyddogion neu staff heddlu'n dod ar eu traws wrth weithio. Mae'r grŵp Cod Moeseg wedi estyn gwahoddiad i'r grŵp hwn fynychu eu cyfarfod. Mae'r gwahoddiad i un person fynychu ar y tro.

Cam Gweithredu – Dylai unrhyw aelodau o'r grŵp sydd eisiau mynychu'r cyfarfod cod moeseg ddweud wrth MD.

7(d) Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Rhoddodd MD ddiweddariad i'r grŵp. Yn y cyfarfod diwethaf, trafodwyd amrywiaeth y grŵp a mynegwyd pryder o ran pa un ai a oedd y grŵp yn gynrychioladol o'n cymunedau. Rhannodd MD gopi o'r diweddariad i'r grŵp. Er mwyn unioni hyn, roedd yr ymgyrch recriwtio diwethaf yn fwy targedig a llwyddwyd i ddenu cynrychiolaeth mwy amrywiol i wneud cais i fod yn ymwelydd annibynnol â dalfeydd. Dywedodd MD y byddai'r cydlynedd gwirfoddolwyr o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n ymgysylltu â'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol er mwyn sicrhau bod grwpiau cymunedol yn cael eu targedu yn y dyfodol. Cadarnhaodd MD y byddai'r ymgyrch recriwtio nesaf yn digwydd yn 2018.

8. Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r cyfarfod hwn

| Cam Gweithredu | Manylion am y Cam Gweithredu | Perchennog |
|----------------|--|------------|
| 1 | GJ i anfon e-bost at yr uwch swyddog ymchwilio yn nigwyddiad Carnifal Aberaeron ar gyfer cysylltu â Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru. | GJ |
| 2 | NH i anfon copi o daflen Plaid Genedlaethol Prydain a ddsbarthwyd yn dilyn digwyddiad Carnifal Aberaeron at GJ. | NH/GJ |
| 3 | MBr i wahodd y cydlynedd Swyddogion Cyswllt Ysgolion i'r cyfarfod GYA nesaf i esbonio camau gweithredu yn dilyn y digwyddiad yng Ngharnifal Aberaeron. | MBr |
| 4 | GJ i gysylltu â'r Rhingyll Plismona Bro yn y Drenewydd i drefnu ei fod yn cysylltu ag NC i drafod ei phryderon o gwmpas hyder cyhoeddus yn yr heddlu. | PS/MBr |
| 5 | PS i roi lleoliad y fan heddlu ynghyd â'r dyddiad i MBr er mwyn rhoi adborth i swyddogion. | GJ/NC |
| 6 | AL i gysylltu â KR er mwyn trafod gwaith recriwtio Llywodraeth Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. | AL/KR |
| 7 | JL i rannu drafft o'r daflen gwyno newydd i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod. | JL |
| 8 | MBr i osod craffu ar Stopio a Chwilio mewn perthynas â'r newidiadau o ran cyfrifoldeb, ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. | MBr |
| 9 | Dylai unrhyw aelodau o'r grŵp sydd eisiau mynychu'r cyfarfod cod moeseg ddweud wrth MD. | Pob Aelod |